OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 670 (Cy.63)

LANDLORD A THENANT

Rheoliadau Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhyddfreinio ar y Cyd ac Adnewyddu Lesddaliad) (Diwygio) (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud - -	*9 Mawrth 2004*
Yn dod i rym - -	*31 Mawrth 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 98 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhyddfreinio ar y Cyd ac Adnewyddu Lesddaliad) (Diwygio) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 31 Mawrth 2004.

Cymhwyso

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys yn unig —

(a) mewn perthynas â thir ac adeiladau yng Nghymru;

(b) i achosion lle mae hysbysiad o dan adran 13 (hysbysiad gan denantiaid cymwys o hawliad i arfer hawl i ryddfreinio ar y cyd) neu adran 42 (hysbysiad gan denant cymwys o hawliad i arfer hawl i gaffael les newydd) o Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 yn cael ei gyflwyno ar neu ar ôl y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

Diwygiadau

3. Diwygir Rheoliadau Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhyddfreinio ar y Cyd ac Adnewyddu Lesddaliad) 1993(**3**) fel a ganlyn—

(a) dileer paragraff 2 o Atodlen 1; a

(b) yn lle is-baragraff (4)(1) o Atodlen 2 rhodder —

(**1**) 1993 p. 28.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan adran 98 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag erthygl 2(2) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.

(**3**) O.S. 1993/2407.